**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-385
Ein cyf/Our ref AD-/01131/13

William Powell AC
AC Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

15 Hydref 2013

Annwyl William

**Llusernau awyr**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Gorffennaf yn gofyn a fydd newid yn ein ffordd o reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â llusernau awyr yn dilyn y tân yn Smethwick.

Yn fy llythyr dyddiedig 30 Mehefin a'r datganiad ysgrifenedig ar 18 Gorffennaf, fe wnes i gyflwyno cyfres o gamau arfaethedig yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ymchwil ar effaith llusernau awyr a balwnau heliwm. Wrth gwrs, roedd y tân yn Smethwick yn ddigwyddiad difrifol iawn, ac o'r herwydd mae swyddogion Llywodraeth y DU yn mynd ati'n ofalus i adolygu'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg am y peryglon tân sy'n gysylltiedig â llusernau awyr.

Fel yr esboniais yn fy llythyr blaenorol a'r datganiad ysgrifenedig, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'n partneriaid ac â Llywodraeth y DU, a bydd yn dilyn hynt eu hadolygiad yn fanwl. Byddaf innau yn monitro hynt ein gwaith gyda manwerthwyr, gwneuthurwyr ac eraill i wneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r ffordd gyfrifol o ddefnyddio'r pethau hyn.

Byddaf yn ysgrifennu at yr awdurdodau lleol i'w hannog i ystyried peryglon llusernau awyr a balwnau heliwm sy'n cael eu rhyddhau yn eu hardaloedd, a byddaf hefyd yn codi'r mater gyda mudiadau elusennol i sicrhau eu bod hwythau'n ystyried effeithiau ehangach rhyddhau llusernau awyr yn eu digwyddiadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Cyn bo hir, bydd Dr Christianne Glossop, fy Mhrif Swyddog Milfeddygol yn rhoi cyngor i godi ymwybyddiaeth am yr effeithiau posibl ar iechyd a lles da byw, a'r peryglon i adeiladau da byw. O safbwynt perygl tân, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub eisoes yn mynd ati i annog pobl i beidio â defnyddio llusernau awyr.

Hawdd deall bod y tân yn Smethwick wedi arwain at bryder o'r newydd am y peryglon sy'n gysylltiedig â llusernau. Yn amlwg, dylai ymateb Llywodraeth Cymru fod yn gymesur ac wedi ei seilio ar dystiolaeth gadarn, a dyna pam rwyf wedi cymryd y camau uchod.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth gan mai hi sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân yng Nghymru.



**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food